Roedd yr wybodaeth hon yn gywir ar 30 Mai 2019. Ewch i wefan Paratoi Cymru a Chwestiynau Cyffredin Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru i gael y cyngor diweddaraf.

Cynulleidfa: Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol

Dosbarthiad: Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd y GIG, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cydffederasiwn GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned

Mae'r bwletin Brexit hwn yn rhoi crynodeb i chi o'r materion sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf yn San Steffan a phwysigrwydd parhau â'n paratoadau Brexit ar gyfer heb gytundeb.

Y sefyllfa bresennol

Ar 15 Ebrill cadarnhaodd Llywodraeth y DU bod yr UE wedi cytuno i ymestyn Erthygl 50 ymhellach hyd at 31 Hydref 2019. Ond nes bod cytundeb yn cael ei gytuno a'i gadarnhau, y sefyllfa gyfreithiol sydd ohoni yw bod perygl o ymadael heb gytundeb o hyd ar ddiwedd cyfnod yr estyniad ar 31 Hydref 2019.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ei gwneud yn glir bod y risg o anwybyddu bygythiad 'dim cytundeb' yn fawr iawn ac nad yw'n ddigon aros a gobeithio y bydd y Senedd neu'r UE yn rhoi terfyn arno ar y funud olaf, unwaith eto.

Rhaid parhau â'r paratoadau

Mae'r cyfyngder Seneddol presennol, a'r diffyg consensws cenedlaethol ynglŷn â ffordd ymlaen, wedi cynyddu'r bygythiad o Brexit anhrefnus yn sylweddol.

Diogelu buddiannau pobl Cymru yw'r flaenoriaeth bennaf o hyd ac mae'n rhaid i bob sector, gan gynnwys ein sector iechyd a gofal cymdeithasol ein hunain, barhau i baratoi mor drylwyr â phosibl er mwyn rheoli'r effaith y byddai unrhyw ddiffyg cytundeb yn ei chael ar Gymru.

Y camau gweithredu presennol

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ein paratoadau a'n trefniadau wrth gefn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn darparu asesiad ffurfiol o ble mae'r gwaith arni ar hyn o bryd, a nodi unrhyw gamau eraill sydd angen eu cymryd.

Mae cynllun hefyd yn cael ei ddatblygu i egluro sut y bydd y trefniadau angenrheidiol yn ailgychwyn os bydd rhaid i ni ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref.

Neges Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich ymrwymiad a'ch gwaith caled dros y misoedd diwethaf. Yn benodol, mae'r cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn rhan nodedig a phwysig iawn o'n paratoadau yng Nghymru. Yn anffodus mae'n rhaid i mi bwysleisio ein bod yn parhau i fod yn effro iawn i'r posibilrwydd o Brexit di-drefn ar 31 Hydref. Byddwn yn ymdrechu'n galetach fyth i ddiogelu a pharatoi ein gwasanaethau o ganlyniad i'r anhrefn y byddai gadael heb gytundeb yn siŵr o'i achosi.

I gael rhagor o wybodaeth

Ewch i Paratoi Cymru neu NHS Confederation Wales Brexit FAQs

This information was correct as of 30 May 2019. Please see the Preparing Wales website and the Wales NHS Confederation FAQs for the most up-to-date advice.

Audience: Health and Social Care professionals

Circulation: Welsh Government, Welsh Local Government Association, NHS Health Boards, Association of Directors for Social Services, NHS Confederation Wales, Health Inspectorate Wales, Care Inspectorate Wales, Social Care Wales, Board of Community Health Councils

This Brexit bulletin is a summary of the issues affecting health and social care in Wales. This issue is focused on the latest political developments at Westminster and the importance of continuing with our 'no deal' Brexit preparations.

Current situation

On 15 April UK Government confirmed that a further extension of Article 50 had been agreed with the EU to 31 October 2019. But, the legal default remains that until a deal is agreed and ratified, there is still a risk of a no deal exit at the end of the extension period on 31 October 2019.

Welsh Ministers have made clear that the risk of ignoring the threat of 'no-deal' is very great and that it is not enough to simply take the chance that parliament or the EU will put a stop to it at the last minute, once again.

Preparations must continue

The current parliamentary impasse, and the lack of any national consensus about a way forward, have significantly increased the threat of a disorganised Brexit.

Safeguarding the interests of the people of Wales remains the absolute priority and all sectors, including our own health and social care sector, must continue to prepare as robustly as possible to manage the impact of a potential no deal exit on Wales.

Current actions

Welsh Government is currently undertaking a review of our preparations and contingency arrangements. This will provide a formal summary of how work has progressed so far, and will identify any actions that still need to be taken.

The development of a 'no deal activation plan' is also in progress, which will set out how 'no-deal' arrangements will be re-activated if we leave without a deal on 31 October.

Vaughan Gething, Minister for Health and Social Services, message:

I want to take this opportunity to thank you for your commitment and hard work over the last few months. In particular the joint working between health and social care has been a distinctive and hugely important part of our preparations in Wales. Unfortunately I do have to emphasise that we remain on high alert to the possibility of a disorganised Brexit on 31 October. That would be a shameful betrayal of our hard working staff and cause real harm to communities across Wales. We will redouble our efforts to protect and prepare our services from the disruption a no-deal exit would inevitably cause.

For more information

Search Preparing Wales Or NHS Confederation Wales Brexit FAQs